Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Red Rose

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2020

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Red Rose

Ysgol arbennig annibynnol yn ardal Y Mynydd Bychan yng Nghaerdydd yw Ysgol Red Rose. Mae'n darparu lleoliadau dydd ar gyfer disgyblion rhwng saith ac un deg naw oed sydd ag anawsterau dysgu cymedrol, difrifol neu anawsterau cymdeithasol ac emosiynol.

Agorwyd yr ysgol ym mis Rhagfyr 2009. Mae 25 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd. Saesneg yw mamiaith bron pob un o'r disgyblion. Mae gan bob un o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae ychydig o ddisgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Awdurdod lleol Caerdydd sy'n ariannu'r rhan fwyaf o'r lleoliadau, ac ariennir ychydig o leoliadau gan Fro Morgannwg a Chastell-nedd Port Talbot.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli mewn adeilad cymunedol. Mae'r ysgol wedi ymestyn ei safle trwy godi un adeilad ychwanegol, a thrwy gaffael eiddo ychwanegol ar stryd gyfagos. Ers yr ymweliad monitro diwethaf ym mis Tachwedd 2018, newidiwyd arweinwyr yr ysgol. Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth presennol wedi bod yn y swyddi hyn er mis Medi 2019.

## Prif gryfderau

### *Cryfderau*

Mae'r pennaeth a'r dirprwy benaethiaid a benodwyd yn ddiweddar wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, a rennir yn dda gyda staff, disgyblion a rhieni.

Mae arweinwyr yr ysgol wedi gwella strategaethau cyfathrebu yn effeithiol ar draws yr ysgol. At ei gilydd, mae'r gwelliant hwn wedi helpu sicrhau ymagwedd gyson gan staff wrth roi polisïau diweddaraf yr ysgol ar waith. Mae hyn yn hynod amlwg wrth reoli ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae gan staff ddealltwriaeth drylwyr o anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol y disgyblion. Maent yn datblygu perthnasoedd gwaith gyda disgyblion ac yn hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol yn gyson ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd sylweddol o ran rheoli eu hymddygiadau wrth iddynt wneud cynnydd trwy'r ysgol.

Mae staff yn fodelau rôl eithriadol o gadarnhaol ar gyfer y disgyblion. Mae eu hymagwedd yn helpu disgyblion i ddangos lefelau cynyddol o hyder, ac mewn llawer o achosion, i fod yn ddysgwyr gwydn sy'n fodlon ehangu eu dysgu a herio eu hunain i wella.

Mae teithiau dysgu ac arsylwadau gan uwch arweinwyr, a gyflwynwyd yn ddiweddar, yn cryfhau'r broses sicrhau ansawdd. Bu'n hynod effeithiol o ran rhoi adborth rheolaidd ac uniongyrchol i staff ar addysgu a dysgu. Caiff adborth disgyblion o deithiau gwersi am eu dysgu a'u cynnydd eu defnyddio gan arweinwyr yn effeithiol, ac mae'n dechrau cryfhau ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar draws yr ysgol.

Mae'r pennaeth wedi sefydlu cysylltiadau defnyddiol â cholegau, ysgol uwchradd a lleoedd gwaith lleol. Mae'r cysylltiadau hyn eisoes wedi cael llwyddiant cynnar wrth ddarparu ar gyfer diddordebau a dyheadau ehangach disgyblion unigol yn yr ysgol.

### *Meysydd i'w datblygu*

Mae'r pennaeth a'r dirprwy benaethiaid yn sefydlu ac yn mireinio prosesau a systemau sicrhau ansawdd ar draws yr ysgol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw ymagwedd gyson at gasglu, monitro a dadansoddi tystiolaeth gan uwch arweinwyr wedi'i datblygu'n ddigonol. O ganlyniad, ni all arweinwyr werthuso'n drylwyr effaith y prosesau newydd neu fireiniedig hyn yn effeithiol.

Mae'r cwricwlwm presennol a gynigir i ddisgyblion yn dechrau diwallu anghenion y disgyblion yn well. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu sawl agwedd ar y cwricwlwm hwn, fel TGCh, profiad gwaith, a medrau byw yn annibynnol.

Mae systemau ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion yn gymharol newydd. Er bod asesiadau ar gyfer llythrennedd a rhifedd bellach ar waith, nid yw system olrhain ysgol gyfan drylwyr wedi'i datblygu'n ddigonol. O ganlyniad, nid yw athrawon yn nodi'r camau nesaf mewn dysgu ar gyfer disgyblion yn ddigon da yn gyson.

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

A1 Ddatblygu'r cwricwlwm ymhellach gan adeiladu ar yr arfer dda a sefydlwyd eisoes

A2 Cryfhau prosesau olrhain a monitro i wella cysondeb a llywio cynllunio yn well

A3 Cryfhau prosesau i gasglu, monitro a dadansoddi tystiolaeth yn effeithiol

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau bod targedau dysgu disgyblion yn cysylltu'n glir â'u nodau a'u dyheadau tymor hir**

Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau bod targedau dysgu disgyblion yn canolbwyntio'n gyson ar gynnydd o fewn llythrennedd a rhifedd, yn ogystal â thargedau lles. At ei gilydd, gosodir targedau addas o fewn taflenni targed llawer o ddisgyblion yn dilyn asesiadau llythrennedd a rhifedd unigol. Caiff y targedau hyn eu hadolygu gan staff a disgyblion yn ffurfiol bob hanner tymor, ac yn anffurfiol mewn gwersi yn gyson. Fodd bynnag, mae lleiafrif o dargedau llythrennedd a rhifedd yn rhy eang ac nid ydynt yn canolbwyntio ar ddilyniant medrau yn ddigon agos.

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae targedau a chamau gweithredu ar gyfer cynllunio cyfnodau pontio disgyblion yn gliriach, gyda lefel gynyddol o gydweithio rhwng yr ysgol ac asiantaethau eraill. Erbyn hyn, mae cyfarfodydd blynyddol i adolygu cyfnodau pontio disgyblion yn darparu cyfleoedd defnyddiol ar gyfer disgyblion, eu rhieni a'r ysgol i osod ac adolygu targedau ar gyfer cyrchfannau a nodau tymor hir yn y dyfodol.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod prosesau sicrhau ansawdd yn canolbwyntio ar safonau gwaith a chynnydd disgyblion, ac ansawdd yr addysgu**

Mae'r pennaeth a'r dirprwy benaethiaid a benodwyd yn ddiweddar yn gwneud cynnydd addas o ran adolygu a mireinio prosesau sicrhau ansawdd sy'n canolbwyntio ar safonau gwaith a chynnydd disgyblion, ac ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Megis dechrau datblygu y mae systemau i rannu gwybodaeth disgyblion yn effeithiol. Mae deunyddiau asesu a gyflwynwyd yn ddiweddar ar waith i roi gwybodaeth waelodlin ddefnyddiol i staff am lefelau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae'r wybodaeth hon yn dechrau llywio'r drefn o ddewis targedau cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn defnyddio'r wybodaeth asesu yn ddigon da i nodi'r camau nesaf mwyaf perthnasol yn nysgu'r disgyblion, a gosod targedau.

Mae gan arweinwyr galendr ffurfiol o arsylwadau gwersi a theithiau dysgu ar waith. Megis dechrau cael ei roi ar waith y mae hyn. Yn anffurfiol, mae arweinwyr yn arsylwi staff ac yn gweithio gyda nhw'n rheolaidd bob dydd ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae arweinwyr yn datblygu gwybodaeth werthfawr am ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr yn gweithio'n gadarnhaol gyda staff i ddefnyddio eu cryfderau a'u meysydd arbenigedd. Er enghraifft, mae archwiliad diweddar o fedrau staff yn helpu arweinwyr i sicrhau bod gan staff y medrau a'r wybodaeth bynciol briodol i gyflwyno cwricwlwm effeithiol.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

### Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/04/2020